

PAM GWNEUD JEHOFAH YN NODDFA I NI

Nodyn i'r siaradwr:

Noddfa ysbrydol ydi'r noddfa sicr—pwysleisiwch hyn. Helpwch bawb i weld sut medrwn bwysu mwy ar Jehofah. Cyflwynwch y sylwadau yn gynnes a chydag argyhoeddiad

YN FYD-EANG MAE POBL YN CHWILIO AM NODDFA (5 mun.)

Mae cannoedd o filiynau'n diodde' yn sgîl tlodi, prinder bwyd, diweithdra, casineb hiliol ac ethnig, rhyfel cartre a rhyfel rhwng llwythau

Mae miliynau'n ffoi i wledydd eraill—yn ffoaduriaid (Defnyddiwch y ffigyrau diweddera'; *g96 8/22 3-4*)

Ym mhob cenedl mae 'na bobl sy'n ofnus, yn sâl, sydd â phroblemau teuluol, yn diodde'n emosiynol, yn gweld torcyfraith ar gynnydd, ac yn teimlo anobaith—ac maen' nhw'n chwilio am ffordd i ddianc rhag y pethau hyn (*g98 2/22 5; g98 6/8 3-5*)

Oherwydd eu bod nhw'n ofni marwolaeth, mae miliynau'n chwilio am loches mewn amrywiaeth o gredoau anghyson

Boed nhw'n ymwybodol o hynny ai peidio, mae'r ddynoliaeth gyfan yn ceisio noddfa

Ond siomedig ydi holl addewidion y byd ynglŷn â noddfa (*Diar 14:12; w88 4/15 12*)

Ble all bobl droi? Pa fath o noddfa sydd ei hangen arnyn' nhw?

YN BENNAF, MAE'R WIR NODDFA YN YSBRYDOL (15 mun.)

Mae'r byd yn rhoi sylw i broblemau dynoliaeth heb 'nabod eu gwir achos

Mae bywyd a gwir hapusrwydd yn gwbl ddibynnol ar Dduw ac ar ufuddhau i'w ddeddfau (*Preg 12:13*)

Fe gafodd dyn ei greu yn ddibynnol ar Dduw—gydag anghenion ysbrydol ganddo

Duw sy'n rhoi ystyr i fywyd, a neb ond Duw (*Jer 10:23, 24; g80 5/22 24*)

Fe gefnodd y pâr cynta' ar Dduw, gan dorri'r berthynas oedd rhyngddynt, a'i wrthod yn noddfa iddynt (*Gen 3:17-19*)

Cawsant eu troi allan o Eden, a'u dieithrio oddi wrth y gwir Dduw

Yn dilyn hyn daeth gwae ar ôl gwae i ran dyn—marwolaeth, rhyfel, torcyfraith, prinder bwyd, amherffeithrwydd emosiynol a chorfforol, a dioddefaint—yr union bethau mae pawb yn ceisio dianc rhagddynt' nhw heddiw (*Job 14:1, 2, 4; Rhuf 5:12*)

Llugoer ydi ymroddiad duwiol rhai sy'n honni bod yn Gristnogion (*Dat 3:15-17; re 67-8*)

Wrth beidio â diwallu eu hanghenion ysbrydol 'dydyn' nhw ddim yn gwneud Jehofah yn noddfa

Rhaid inni ystyried be' ydi'n blaenoriaethau

Ai ein hysbrydolrwydd a'n perthynas â Jehofah sy'n cael y lle amlycaf?

Ydym ni'n gwneud Jehofah yn noddfa inni?

DIM OND UN NODDFA SICR SYDD—JEHOFAH (20 mun.)

Mae enw Jehofah yn dŵr cadarn ac yn noddfa; mae gofyn ymdrech a gweithredu i 'reddeg ato' a chael ein hamddiffyn (*Diar 18:10*)

Mae darpariaethau Jehofah ar gyfer noddfa ynghlwm wrth ei enw, gan ein hatgoffa ni am ei rinweddau a'i fwriadau (*w93 11/1 5*)

Os ydym yn dymuno i Jehofah fod yn noddfa inni, rhaid inni geisio'i gyfiawnder a byw yn ôl hynny (*Salm 15:1, 2; Math 6:33*)

Mae Jehofah yn agor y drws i'r noddfa drwy aberth pridwerthol ei Fab

Mae'n ein glanhau ni oddi wrth bechod, gan ei gwneud yn bosib' cael perthynas agos gyda Duw (*1Ioan 2:1, 2, 4, 5*)

Ar sail pridwerth Iesu, ceisiwn noddfa drwy weddi (*Salm 65:2; 66:19*)

Os bydd y demoniaid yn ymosod arnom, neu os byddwn yn diodde' salwch corfforol neu mewn cyfyngder emosiynol, medrwn agor ein calonnau iddo (*Salm 62:8; w92 4/15 4-6*)

Heblaw rhoi lles emosiynol inni, mae Jehofah yn gwrando'n astud ar ein geiriau ac mi fedr ddarparu cymorth ar gyfer unrhyw sefyllfa (*Jona 2:2*)

Efallai na fydd yr ateb yr hyn a ddisgwyliwn, ond os daliwn ati i weddio fe ddaw gollyngdod a llonyddwch calon inni oddi wrth Jehofah (*Phil 4:6, 7; Iago 1:5, 6*)

Mae cyfundrefn ysbryd-gyfeiriedig Jehofah yn darparu noddfa

Mor ddiolchgar 'rydym am yr holl erthyglau eglur yn y *Watchtower* a'r *Awake!* gyda'u cyngor Ysgrythurrol sy'n ein hamddiffyn ni rhag ildio i'r cnawd amherffaith, y demoniaid, a doethineb chwit-chwat y byd! (*Col 2:8*)

Mae cyfundrefn Jehofah yn rhoi help inni iawn werthuso cyngor y Beibl

Priodol iawn ydi geiriau *The Watchtower*: "Fedr cynghorwyr a seicolegwyr bydol fyth obeithio ymgyrraedd at ddoethineb a deall Jehofah. 'Mae ei ddoethineb yn ddifoesur.' (*Salm 147:5*) Yn hytrach na dibynnu ar ddoethineb dynion amlwg y byd neu hyd yn oed ar ein hemosiynau anhyddyng ein hunain, trown am gyngor aeddfed at Jehofah, ei Air, a henuriaid y gynulleidfa Gristnogol." (*w93 12/15 13*)

Mewn rhai amgylchiadau, efallai y bydd cynghorwyr bydol yn medru helpu, ond mae Jehofah yn medru helpu a chynnig noddfa ym mhob sefyllfa

Fe all henuriaid y gynulleidfa Gristnogol estyn cysur a noddfa inni (Eseia 32:1, 2; 1Thes 5:14; w94 1/15 19)
Mae noddfa iachusol i'w gael yng nghyfarfodydd y gynulleidfa (Heb 10:23-25)

(Yma medrwch sôn yn fyr cymaint ydi gwerthfawrogiad yr ifainc, y rhai hŷn, y cyhoeddwy'r anabl, am y cyfarfodydd maen' nhw'n eu mynychu'n gyson ac yn cymryd rhan ynddyn' nhw)

Mae 'na gysur ac anogaeth i'w cael yng ngeiriau a cherddoriaeth y llyfr caneuon ac yn y *Kingdom Melodies*

Ceir enghraifft o hyn yng nghân rhif 46 (Col 3:16; w89 8/15 32)

Daw llawenydd yn y weinidogaeth Gristnogol gan gadw'n meddyliau a'n calonnau ar wirioneddau Gair Duw a'n gobaith am y dyfodol

Mae'n rhyddhau caethion, gan eu helpu i wneud newydd da'r Deyrnas yn noddfa iddynt (Eseia 61:1; Math 24:14)

PARHEWCH I WNEUD JEHOFAH YN NODDFA I CHI (5 mun.)

Cyn bo hir mi fydd pob noddfa fyddol yn cael eu diddymu (Dat 6:15-17; *re* 112)

Dim ond gwir noddfa Jehofah Dduw sy'n cynnig sicrwydd bywyd

Daliwch ati i ddysgu am Jehofah, i roi egwyddorion y Beibl ar waith, a chadw perthynas iach bersonol â Duw (Salm 57:1)

Mae Jehofah yn gwahodd pawb o'r ddynoliaeth i dderbyn darpariaeth ei noddfa

Rhowch eich ffydd yn y pridwerth, a chadw'n glôs at gyfundrefn weladwy Jehofah

Byddwch yn benderfynol o barhau i wneud Jehofah yn noddfa ysbrydol i chi, oherwydd fe fydd hyn yn arwain at fyw am byth ar ddaear Baradwys (Salm 37:34, 37-40)

(Glynwch yn glôs wrth y deunydd sydd wedi'i amlinellu, a chadw at yr amser a nodwyd ar gyfer pob adran. 'Does dim rhaid darllen pob testun a grybwyllir na gwneud sylwadau arnyn' nhw)